**Crynodeb Gweithredol Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2022**

## 1. Prif Ddatganiad

*Mae Cyngor Bwrdeistref Sir Torfaen yn parhau i ymrwymo i gynyddu, datblygu a chynnal cyfleoedd chwarae o safon, a sicrhau ei fod yn deall a chefnogi arferion chwarae pob plentyn a pherson ifanc. Cred Cyngor Torfaen ei bod yn hanfodol hyrwyddo a gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae'n rhydd ac yn ddiogel yn y gymuned.*

*Rhoddir pwyslais mawr ar fynd i'r afael â sbectrwm eang o faterion sy'n gysylltiedig â chwarae, a rhoddwyd mesurau ar waith i gyfyngu ar yr hyn sy'n rhwystro neu'n cyfyngu ar allu plant i chwarae. Mae profiadau chwarae cadarnhaol rheolaidd yn hanfodol i alluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu a ffynnu.*

*Mae chwarae yn darparu cyfoeth o fanteision i iechyd a lles plant a phobl ifanc. Mae Cyngor Torfaen wedi ymrwymo i gefnogi hawl pob plentyn i chwarae trwy bob agwedd ar eu bywydau ac mae bellach mewn sefyllfa, am y pedwerydd tro, i adolygu sut mae'n cyflawni, yn cefnogi ac yn diogelu'r cysyniad o chwarae i bob plentyn gan gynnwys y rhai mwyaf bregus a'r grwpiau hynny sy'n anoddach i'w cyrraedd.*

## 2. Cefndir

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddyletswydd ar bob awdurdod yng Nghymru i asesu'n drwyadl am gyfleoedd chwarae digonol yn unol â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yn cael eu cwblhau ar gylch 3 blynedd. Cyflwynwyd yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae cyntaf i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2013, a chyflwynwyd asesiadau dilynol ym mis Mawrth 2016 a 2019.

Mae Gwasanaeth Chwarae'r awdurdod lleol yn arwain ar asesu a chasglu data oherwydd eu gwybodaeth a'u profiad o fewn y maes gwaith, yn ogystal â'u harbenigedd o ran cynnal yr asesiad. Dyma'r pedwerydd tro i'r awdurdod lleol fod yn y sefyllfa i asesu'r sefyllfa bresennol o ran chwarae yn Nhorfaen.

Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar ystod eang o bynciau ac agendâu sy'n gysylltiedig â chwarae a'r ddarpariaeth chwarae a hamdden. Mae'r Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae yn cael ei fonitro gan grŵp strategol sy'n cwrdd yn chwarterol gyda chynrychiolwyr o'r meysydd allweddol o fewn yr asesiad. Dyma feysydd allweddol yr asesiad:-

| | | |
|---|---|---|
| Mater A | Poblogaeth | Mae data poblogaeth yn cael ei rannu'n ystodau oedran penodol/plant ag anableddau / Y Gymraeg / Plant Sy'n Derbyn Gofal/ ffactorau diwylliannol |
| Mater B | Darparu ar gyfer Anghenion Amrywiol | Ardaloedd gwledig ynysig, anableddau, cefndiroedd diwylliannol gwahanol, adnoddau cynhwysiant, y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, Gofalwyr Ifanc, plant sy'n lesbiaid, hoywon a deurywiol, a phobl ifanc |
| Mater C | Y Lleoedd sydd ar gael i Blant Chwarae | Asesiadau Mannau Agored, parciau, Safleoedd Tir Llwyd, safonau chwarae sefydlog, meysydd chwarae di-fwg, dim gemau pêl, Arwyddion Blaenoriaeth i Chwarae, ac ymgynghori ar Waredu ar Gaeau Chwarae. |
| Mater D | Darpariaeth dan Oruchwyliaeth | Darparu darpariaeth chwarae cyfoethog ac amrywiol, Cadw Cofnodion Diweddar, Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Sicrhau Ansawdd, Darpariaeth Chwaraeon, Darpariaeth Ieuenctid, Celf a Darpariaeth Ddiwylliannol. |
| Mater E | Costau Darparu Chwarae | Cofnodion poblogaeth plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel/ Ardaloedd Difreintiedig. Llogi Lleoliadau Cost Isel, Grantiau a Chymorthdaliadau ar gael i Ddarparwyr, Cludiant drwy Gymhorthdal. |
| Mater F | Mynediad i Le a Darpariaeth | Traffig a Thrafnidiaeth, Lleoedd i Seiclo, Grantiau Diogelwch ar y Ffyrdd, Cau Ffyrdd Dros Dro, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Awgrymiadau a Chefnogaeth i Rieni. |
| Mater G | Cyflawni a Datblygu'r Gweithlu Chwarae | Cadw'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y Gweithlu Chwarae, Datblygu'r Gweithlu, Hyfforddi Gwirfoddolwyr, Clustnodi Cyllideb ar gyfer Gwaith Chwarae, Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Chwarae i Weithwyr Proffesiynol. |
| Mater H | Ymgysylltu â'r Gymuned a'i Chynnwys | Fforymau Ieuenctid, Cynghorau Ysgol, Cynnwys y Gymuned, Digwyddiadau Chwarae, Hyfforddiant Chwarae ar gyfer Aelodau'r Gymuned |
| Mater I | Chwarae o fewn Holl Bolisïau ac Agendâu Gweithredu Perthnasol | Bwrdd Gwasanaeth Lleol, Cynllun Llesiant, Chwarae mewn Ysgolion, Caeau Chwarae Ysgolion, Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Trafnidiaeth Lleol, Agenda Gwrth Dlodi, Blynyddoedd Cynnar, Dechrau'n Deg, Y Strategaeth Gofal Plant, Mentrau Cymorth i Deuluoedd, Dulliau Pontio'r Cenedlaethau, Teuluoedd yn Gyntaf, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, Diogelwch Cymunedol, Polisïau Iechyd a Diogelwch, Yswiriant |

Mae'r adrannau uchod wedi’u rhannu'n 102 o fesurau gwahanol. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol nodi cryfderau, diffygion a thystiolaeth ar gyfer pob mesur ynghyd â statws CAG.

| | |
|---|---|
| Bodloni’r meini prawf yn llawn. | Wedi’u bodloni’n llawn |
| Bodloni’r meini prawf yn rhannol. | Wedi’u bodloni’n rhannol |
| Heb fodloni’r meini prawf. | Heb eu bodloni |

## 3. Sut wnaethon ni?

I gwblhau'r asesiad roedd angen gweithio gyda dros 130 o bartneriaid. Roedd yr asesiad yn caniatáu inni nodi cryfderau a gwendidau ar draws yr holl feysydd allweddol yn ogystal â thynnu sylw at fodelau ymarfer da, fel model integreiddio'r awdurdod lleol o fewn lleoliadau chwarae, y prosiect gwirfoddoli mewn chwarae yn ogystal â gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion.

Ar ôl cynnal yr asesiad, nodwyd fod ystod eang o ddarpariaethau chwarae a hamdden wedi'u darparu ar draws yr awdurdod ar gyfer plant a phobl ifanc 0+ oed gan ystod eang o bartneriaid. Roedd hyn yn cynnwys prosiectau chwarae'n gysylltiedig ag ysgolion, clybiau ar ôl ysgol, prosiectau chwarae cymunedol fel sesiynau chwarae i'r teulu ynghyd ag ystod eang o ddarpariaethau chwarae a hamdden yn ystod gwyliau ysgol. Mae hefyd ystod o weithgareddau chwarae blynyddoedd cynnar ynghyd â darpariaeth hamdden, chwaraeon, diwylliannol ac ieuenctid

### 3.1 Darparu ar gyfer Anghenion Amrywiol

Darperir cyfleoedd cynhwysol gan sawl partner sy'n galluogi pob plentyn a pherson ifanc i gael mynediad at ddarpariaethau chwarae a hamdden. Mae'r awdurdod lleol a phartneriaid yn y trydydd sector yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau gael mynediad at ddarpariaethau chwarae a hamdden yn eu cymuned leol.

Fe wnaeth archwiliad diweddar nodi 43 o brosiectau a darpariaethau gwahanol y gall plant a phobl ifanc sydd ag anableddau gael mynediad iddynt. Yn ystod haf 2022, roedd 197 o blant a phobl ifanc a oedd angen cymorth ychwanegol yn bresennol yn narpariaethau chwarae'r awdurdod lleol.

Darperir cyfleoedd chwarae a darpariaethau i bobl ifanc yn rheolaidd i Ofalwyr Ifanc ac mae nifer sylweddol fawr o Blant sy'n derbyn gofal yn mynychu darpariaethau chwarae'r awdurdod lleol yn aml. Darparwyd darpariaethau chwarae a hamdden cyfrwng Cymraeg yn ystod yr haf gan yr Urdd, Menter Iaith a gwasanaeth chwarae'r awdurdod lleol.

### 3.2 Mannau i Blant Chwarae: Mannau agored a mannau chwarae pwrpasol yn yr awyr agored, heb staff

Mae gennym lawer o barciau, ardaloedd chwarae a mannau gwyrdd yn Nhorfaen. Mae gan Dorfaen 12 parc ffurfiol, dros 60 o ardaloedd chwarae a dros 74 hectar o fannau gwyrdd amwynder, yn ogystal â dros 1000 hectar o dir gwyrdd naturiol hygyrch gan gynnwys ein coetiroedd.

Mae ein seilwaith gwyrdd trefol yn cynnwys rhwydwaith o goetiroedd, coed stryd, parciau, gerddi, ymylon ffyrdd, rhandiroedd, mynwentydd, mannau gwyrdd mwynderau, a seilwaith glas fel afonydd a chamlesi, y mae llawer ohonynt yn hygyrch i'r cyhoedd.

Mae arwyddion dim ysmygu wedi'u gosod ym mhob un o feysydd chwarae'r awdurdod lleol. Yn ogystal â hyn, mae gweithgor yn cwrdd yn rheolaidd i drafod mannau chwarae cynhwysol gyda dwy ardal chwarae fawr yn cael eu datblygu ym Mhont-y-pŵl a Chwmbrân ar hyn o bryd er mwyn cynyddu cynhwysiant. Mae proses ymgynghori fawr wedi'i chynnal yn ddiweddar sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau hyn.

Mae cynlluniau adnewyddu ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf (2023) yn ardal chwarae Alexandra Road, Sebastopol, ac Ardal Chwarae Brookfield, Pontnewydd a bydd ardal chwarae newydd i blant bach yn cael ei datblygu ym Mhentre' Isaf, Cwmbrân.

Mae cynlluniau plannu coed a newidiadau yn ein hamserlenni torri porfa yn cael eu gwneud i gynyddu gwerth bioamrywiaeth ein mannau agored a byddant yn helpu i gysylltu mwy o blant a phobl ifanc â byd natur sy'n gwella lles meddyliol.

### 3.3 Darpariaeth dan Oruchwyliaeth

Gofynnwyd i ni asesu'r ddarpariaeth chwarae, hamdden, ieuenctid a diwylliannol, dan oruchwyliaeth sy'n mynd rhagddynt yn Nhorfaen. Roedd hyn yn cynnwys nodi nifer y darpariaethau a gyflwynwyd, y gwahanol fathau ac ansawdd y darpariaethau chwarae a oedd yn cael eu darparu yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

Cynhaliwyd archwiliad ym mis Mai 2022 ar ddarpariaethau cymunedol sydd â staff (nid darpariaethau yn ystod y diwrnod ysgol) ar gyfer plant a phobl ifanc 5+ oed yn Nhorfaen. Cyflawnwyd hyn drwy gysylltu â darparwyr allweddol yn ogystal â chynnal chwiliadau ar y rhyngrwyd. Datgelodd y canlyniadau gyfanswm o 206 o ddarpariaethau.

| Math o Ddarpariaeth | Nifer | Darparwyr |
|---|---|---|
| Chwarae | 76 | Y Gwasanaeth Chwarae |
| Ieuenctid | 24 | CPIC, Y Gwasanaeth Ieuenctid, Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl, Grwpiau Eglwys |
| Cyfrwng Cymraeg | 7 | Menter Iaith, Urdd, Y Gwasanaeth Chwarae |
| Drama, Dawns, Celfyddydau Perfformio | 15 | Grwpiau 3ydd Sector |
| Clybiau a Dosbarthiadau Chwaraeon | 52 | Datblygu Chwaraeon a Grwpiau 3ydd Sector |
| Chwarae i'r anabl, ieuenctid, darpariaeth chwarae | 32 | Y Gwasanaeth Chwarae, TOGS, Gweithredu Dros Blant, Hope Gb, Y Gwasanaeth Ieuenctid, Grwpiau 3ydd sector |

### 3.4 Mynediad i Le a Darpariaeth

Mae Cynllun Teithio Llesol Torfaen yn cael ei hyrwyddo'n eang, a dywedodd nifer sylweddol fawr o blant a phobl ifanc eu bod yn defnyddio'r llwybrau beicio a cherdded o amgylch y fwrdeistref yn rheolaidd.

Mae llwybrau mwy diogel i fannau chwarae wedi cael eu hannog drwy wella'r isffyrdd a'r llwybrau cerdded mewn cymunedau lleol, a hynny mewn ffordd artistig.

Cedwir gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chwarae, hamdden, chwaraeon, ieuenctid, a darpariaeth hamdden yn gyfoes ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor, ac mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n eang ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol gan bartneriaid unigol sy'n gysylltiedig â darpariaethau.

### 3.5 Sicrhau a Datblygu'r Gweithlu

Mae prosiect gwirfoddoli mawr i bobl ifanc yn darparu profiad gwaith mewn lleoliadau chwarae cymunedol i dros 150 o bobl ifanc 16+ oed bob blwyddyn.

Mae'r Gweithlu Chwarae a Hamdden yn Nhorfaen wedi cynyddu'n helaeth dros y deng mlynedd diwethaf. Roedd dros 300 o staff yn haf 2022 ac yn darparu darpariaeth chwarae ar draws Torfaen.

Fe wnaeth archwiliad diweddar ar hyfforddiant staff, nodi bod gan 82% o'r rheini sy'n gweithio yn ystod y tymor, gymhwyster sy'n gysylltiedig â chwarae. Yn haf 2022, cwblhaodd dros 70 o wirfoddolwyr gymhwyster achrededig mewn gwaith chwarae.

### 3.6 Cynnwys y Gymuned

Rhoddir pwyslais mawr ar sicrhau ein bod yn cynnwys y gymuned yn rheolaidd, a hynny i sicrhau bod gan chwarae rôl allweddol yn y gymuned, i gefnogi digwyddiadau cymunedol.

Mae'r Gwasanaeth Chwarae yn cynnal llyfrgell fenthyca chwarae i gefnogi grwpiau cymunedol i annog a chynnal cyfleoedd chwarae. Mae gwirfoddolwr chwarae gweithgar yn grymuso pobl ifanc i wneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned leol.

Mae fforwm Ieuenctid gweithgar a Chynghorau Plant sy'n gysylltiedig ag ysgolion cynradd yn galluogi plant a phobl ifanc i fynd ati i leisio'u barn a gweld bod camau'n cael eu dilyn yn seiliedig ar y farn honno.

Ymgynghorir yn eang â phlant a phobl ifanc ar faterion chwarae a materion yn ymwneud â chwarae, a hynny drwy ddarpariaethau chwarae'r cyngor, ac mae pob gweithiwr chwarae wedi derbyn hyfforddiant ar Egwyddorion Gwaith Chwarae er mwyn sicrhau bod darpariaethau'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc.

### 3.7 Mae chwarae o fewn Polisïau ac Agendâu Gweithredu perthnasol.

Yn olaf, rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod y cysyniad o chwarae yn cael ei hyrwyddo o fewn yr holl bolisïau ac agendâu gweithredu perthnasol. Mae gennym weithgor strategol sy'n canolbwyntio ar chwarae ac mae'n cwrdd bob chwarter gyda chynrychiolwyr yr holl bolisïau ac agendâu allweddol perthnasol.


Rydym yn parhau i sicrhau bod gan chwarae rôl annatod o fewn ysgolion. Mae canran sylweddol o ysgolion cynradd yn Nhorfaen yn cynnwys prosiectau chwarae wythnosol a gyflwynir gan weithwyr chwarae, boed hynny'n Sesiynau Chwarae a Lles, Sesiynau Chwarae Adar y Bore, Prosiectau Chwarae ar y Maes Chwarae, clybiau ar ôl ysgol, gwersylloedd Bwyd a Hwyl neu gynlluniau chwarae.

Dangoswyd hefyd ddealltwriaeth glir o'r cysylltiadau diffiniol rhwng chwarae, iechyd, a lles ynghyd â rôl chwarae o fewn mentrau cymorth i deuluoedd fel Teuluoedd yn Gyntaf, a hyrwyddo ein Sesiynau Chwarae i Deuluoedd a'r Fforwm Dad a Fi.

### 3.8 Adolygu'r Statws CAG

At ei gilydd, roedd statws CAG ar gyfer Asesiad Digonolrwydd Chwarae Torfaen fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Wedi'u bodloni'n llawn | 94 |
| Wedi'u bodloni'n rhannol | 7 |
| Heb eu bodloni | 1 |



## 4. Ymgynghoriad

Cwblhawyd proses ymgynghori fawr ochr yn ochr â’r asesiad a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf 2021 a Chwefror 2022. Roedd hyn yn caniatáu i blant, pobl ifanc, y cyhoedd, y gweithlu, a phartneriaid gyflwyno eu barn a'u sylwadau ynghylch ystod eang o bynciau sy'n gysylltiedig â chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc.

Dylid nodi nad oes unrhyw arian ychwanegol yn dod i law i gyflawni’r cynllun gweithredu hwn. O ganlyniad, rydym wedi gweithio’n greadigol gyda’r cynlluniau gwaith cyfredol ar draws ystod eang o feysydd gwasanaeth i sicrhau ein bod yn cyflawni hyd eithaf ein gallu.

| **Pwy** | **Nifer** | **Dull** |
|---|---|---|
| Plant hyd at 11 oed | 2149 | Gweithdai ymgynghori darpariaethau chwarae / ysgolion/ darpariaethau hanner tymor, clybiau chwarae a darpariaethau haf |
| Pobl ifanc 12+ oed | 236 | Gofod i Ddinasyddion / Grwpiau Ffocws |
| Y Cyhoedd | 171 | Gofod i Ddinasyddion / Arolygon ar Bapur |
| Y Gweithlu Chwarae | 111 | Grwpiau Ffocws/ Holiadur Ar lein |
| Cyfanswm | **2667** | |

### 4.1 Ymgynghoriad Plant


Fe wnaeth 2149 o blant gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a gafodd eu cynnal ar ffurf Gweithdai Ymgynghori o fewn darpariaethau chwarae/ ysgolion/ darpariaethau hanner tymor, clybiau chwarae, a darpariaethau haf. Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau yn y lleoliadau a ganlyn: -

| | |
|---|---|
| Ysgol Treftadaeth Blaenafon | Clwb Chwarae Gofalwyr Ifanc |
| Ysgol Gynradd Cymunedol Blenheim | Gwersyll Chwerthin, Dysgu a Bod yn Egnïol Panteg |
| Sesiynau Chwarae a Seibiant Cockerel | Gwersyll Cadw’n Actif Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands |
| Ysgol Gynradd Coed Eva | Cylch Chwarae Cofleidiol |
| Gwersyll Chwerthin, Dysgu a Bod yn Egnïol Croesyceiliog | Clwb Coed |
| Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer | TOG’s |
| Sesiwn Chwarae yn y Parc - Fishponds | Ysgol Gynradd Dewi Sant |
| Clwb Hwyl Dydd Gwener | Ysgol Gynradd Gymunedol Pen-y-garn |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Garnteg | Ysgol Gynradd Ein Harglwyddes a’r Angylion |
| Ysgol Gynradd George Street | Clwb Chwarae Cae Derw |
| Sesiwn Chwarae yn Parc - Glansychan | Sesiwn Chwarae yn y Parc Gerddi Blodau Cae Derw |

| | |
|---|---|
| Sesiwn Chwarae a Seibiant Glenside | Ysgol Gynradd New Inn |
| Ysgol Gynradd Greenmeadow | Ysgol Gynradd Nant Celyn |
| Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Henllys | Ysgol Gynradd Maendy |
| Clwb Chwarae Henllys | Ysgol Gynradd Gymunedol Llantarnam |
| Sesiwn Chwarae yn y Parc Llwyncelyn | Clwb Lego |


**Dadansoddiad o rhywedd y plant a gymerodd rhan yn yr ymgynghoriad**

| Bechgyn | Merched |
|---|---|
| 946 | 1203 |
| 44% | 56% |




**Dadansoddiad o ran oedran**

| Oedran | Nifer y Cyfranogwyr | Canran |
|---|---|---|
| 4 oed | 24 | 1.1% |
| 5 oed | 236 | 11% |
| 6 oed | 241 | 11.2% |
| 7 oed | 302 | 14.1% |
| 8 oed | 343 | 16% |
| 9 oed | 365 | 17% |
| 10 oed | 387 | 18% |
| 11 oed | 215 | 10% |
| 12 oed | 36 | 1.7% |




**Cwestiynau'r Plant**
**Sut deimlad wyt ti'n cael wrth chwarae?**



**Fe wnaeth crynodeb o ymgynghoriad y plant dynnu sylw at y canlynol, mewn perthynas â'u cyfleoedd chwarae yn y gymuned**

| |
|---|
| Dywedodd 57% fod ganddynt ddigon o amser i chwarae pan fyddant yn yr ysgol. |
| Gall 43% chwarae allan yn y gymuned heb oedolyn yn bresennol |
| Roedd yr adborth a gafwyd ynglŷn â pharciau a mannau chwarae yn gysylltiedig â'r angen am fwy o offer a'r gallu i gyrchu parciau mewn modd mwy diogel |
| Roedd 39% wedi cael pryd o dafod wrth chwarae yn y gymuned |
| Arferion chwarae a ble mae plant yn chwarae **-** Parc 34% Cae 12% Tŷ ffrind 11% Stryd 11% Siopau 10% Gardd 8% Cynllun chwarae 8% Arall 6% |
| Roedd pryderon o ran chwarae yn yr awyr agored yn gysylltiedig â Dieithriaid 33% Bwlis 13% Cŵn 10% Pobl Ifanc 10% Syrthio/cael niwed 9% Traffig 8% Arall – 17% (Tywyllwch, tywydd, mynd ar goll) |
| Roedd canran uchel yn mynychu darpariaethau chwarae a hamdden sydd â staff, yn eu cymuned |

**Camau ar gyfer Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae 2022/23 wrth symud ymlaen, yn seiliedig ar yr adborth gan y plant**

| |
|---|
| Parhau i gefnogi ysgolion i sicrhau bod chwarae yn parhau'n flaenoriaeth drwy gydol y diwrnod ysgol |
| Parhau i ddarparu sesiynau chwarae a lles mewn ysgolion cynradd |
| Parhau i ddarparu'r prosiect Chwarae ar y Buarth mewn ysgolion cynradd |
| Parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth chwarae i staff ysgol |
| Parhau i ddarparu rhaglen eang o gyfleoedd chwarae am ddim yn y gymuned ar ffurf clybiau chwarae cymunedol, sesiynau chwarae i'r teulu, gwersylloedd chwarae a lles, cynlluniau chwarae mynediad agored, sesiynau chwarae ac seibiant, gwersylloedd bwyd a hwyl a sesiynau chwarae yn y parc |
| Parhau i ymgynghori â phlant ar ddatblygu parciau a mannau chwarae yn y dyfodol |
| Parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i greu cymunedau mwy diogel lle gallant chwarae |
| Parhau i ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd hamdden, chwaraeon, ieuenctid a diwylliannol ar draws y fwrdeistref |
| Gweithio'n agos gyda phartneriaid i gynnig darpariaeth allgymorth â staff, mewn ardaloedd a dargedir |
| Parhau i sicrhau bod parciau a mannau chwarae yn cael eu monitro a'u harolygu'n rheolaidd yn unol â safonau. |
| Cynyddu'r sesiynau ymwybyddiaeth chwarae a gyflwynir i drigolion a gweithwyr proffesiynol |

## 5. Ymgynghoriad Pobl Ifanc

Cyfanswm y cyfranogwyr oedd **236.** Ymgynghorwyd â phobl ifanc drwy *Citizen Space* a grwpiau ffocws.

| Oedran | Nifer y Cyfranogwyr | Canran |
|---|---|---|
| 11 oed | 26 | 11% |
| 12 oed | 28 | 11.9% |
| 13 oed | 19 | 8.1% |
| 14 oed | 13 | 5.5% |
| 15 oed | 16 | 6.8% |
| 16 oed | 36 | 15.3% |
| 17 oed | 25 | 10.6% |
| 18 oed | 37 | 15.7% |
| 19 oed | 11 | 4.7% |
| 20 oed | 10 | 4.2% |
| 21 oed | 4 | 1.7% |
| 22 oed | 4 | 1.7% |
| 23 oed | 2 | 0.8% |
| 24 oed | 3 | 1.3% |
| 25 oed | 2 | 0.8% |

**Fe wnaeth crynodeb o'r ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc dynnu sylw at y canlynol sy'n gysylltiedig â chwarae a chymdeithasu yn y gymuned**

| |
|---|
| Dywedodd 66% o bobl ifanc eu bod wedi cael pryd o dafod wrth chwarae neu gymdeithasu yn y gymuned |
| Dywedodd canran uchel mai mewn parciau a mannau chwarae lleol y maen nhw'n chwarae ac yn cymdeithasu fwyaf, a dywedodd llawer bod angen offer ar gyfer plant hŷn/pobl ifanc mewn parciau |
| Wrth chwarae a chymdeithasu yn y gymuned, roedd yna bryderon yn gysylltiedig â'r canlynol: - 32% dieithriaid,27% bwlis neu bobl ifanc eraill,21% traffig,16% cŵn,4% arall |
| Dywedodd 81% o'r bobl ifanc yn nad oedd digon o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 12+ yn Nhorfaen |
| Mae angen mwy o ddarpariaeth y gall bobl ifanc gael mynediad iddynt- nododd pobl ifanc hŷn 16+ mwy o gyfleusterau hamdden, chwaraeon, ac mae 12+ am fwy o leoedd i fynd, darpariaethau, lleoedd diogel i gymdeithasu |
| Adborth ar Deithio Llesol - 89% cerdded, 21% Seiclo. Mae 61% wedi defnyddio'r llwybrau cerdded a seiclo yn Nhorfaen |

**Camau ar gyfer Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae 2022/23 wrth symud ymlaen, yn seiliedig ar yr adborth gan y bobl ifanc**

| |
|---|
| Parhau i weithio gyda'r awdurdod lleol a phartneriaid 3ydd sector i gyflawni darpariaeth ieuenctid sydd â staff |
| Hyrwyddo ariannu cyfleoedd i'r sawl sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc drwy grantiau allanol i gynyddu nifer y darpariaethau sydd ar gael i bobl ifanc 12 + oed |
| Y Gwasanaeth Ieuenctid i weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i archwilio'r posibilrwydd o gael cymorth ychwanegol yng ngogledd y fwrdeistref i blant a phobl ifanc (LHDTC) |
| Ymgynghori â phobl ifanc ar ddatblygu parciau a mannau chwarae yn y dyfodol |
| Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu rhaglen o ddarpariaethau chwaraeon, hamdden, ieuenctid, celfyddyd a diwylliannol i bobl ifanc |
| Parhau i gyflawni a hyrwyddo'r Prosiect Gwirfoddolwyr Chwarae i bobl ifanc 16 oed a  hŷn |
| Parhau i gyflwyno a hyrwyddo'r Prosiect Helpwyr Chwarae i bobl ifanc 13 – 15 oed |
| Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc wirfoddoli. |
| Parhau i gefnogi a hyrwyddo'r Cynllun Teithio Llesol |

## 6. Ymgynghoriad Cyhoeddus

**Fe wnaeth crynodeb o'r ymgynghoriad cyhoeddus dynnu sylw at y canlynol sy'n gysylltiedig â chwarae yn y gymuned.**

| |
|---|
| Roedd 48% o'r cyhoedd yn teimlo nad oes eu cymuned yn ddigon diogel i blant chwarae allan yn yr awyr agored |
| Codwyd pryderon yn gysylltiedig â Thraffig 38%, YG 31%, Dieithriaid 26%, Cŵn 5% |
| Roedd 59% yn teimlo bod gan blant ddigon o amser i chwarae o'i gymharu â phan oedden nhw'n blentyn |
| Roedd 48% yn teimlo bod gan blant ddigon o amser i chwarae yn ystod y diwrnod ysgol |
| Roedd yr adborth ar barciau yn gysylltiedig â fandaliaeth, sbwriel, ymddygiad gwrthgymdeithasol a grwpiau o bobl ifanc |
| Roedd yr adborth ar y ddarpariaeth â staff i blant a phobl ifanc yn nodi'r angen i hysbysebu darpariaethau'n fwy effeithiol (yn enwedig diwylliant a'r ddarpariaeth i bobl ifanc) |
| Mae angen mwy o ddarpariaeth â staff i blant a phobl ifanc dros 12 oed |
| Mae 78% yn defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol i chwilio am ddarpariaethau i blant a phobl ifanc. |

**Camau ar gyfer Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae 2022/23 wrth symud ymlaen, yn seiliedig ar yr adborth gan y cyhoedd**

| |
|---|
| Parhau i gyfrannu at gynnal a chadw parciau/ mannau chwarae drwy grantiau Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (AWPOG) |
| Parhau i ddarparu Sesiynau Chwarae yn y Parc (Chwarae Torfaen) |

| |
|---|
| Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a chefnogi Wythnos Genedlaethol Caru Parciau 23-31 Gorffennaf |
| Parhau i gynnal cyfarfodydd aml-asiantaeth i drafod a mynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn marciau a mannau agored |
| Gweithio ar y cyd â darparwyr, sef yr awdurdod lleol a'r 3ydd sector i rannu a hyrwyddo gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chwarae a darpariaethau hamdden i blant a phobl ifanc |
| Hyrwyddo cyfleoedd ariannu (Haf o Hwyl /Gaeaf o Les) i'r sawl sy'n darparu ar gyfer pobl ifanc drwy grantiau allanol i gynyddu nifer y darpariaethau sydd ar gael i bobl ifanc 12 oed + |
| Parhau i gefnogi ysgolion i sicrhau bod chwarae yn parhau i fod yn rhan annatod o'r diwrnod ysgol |
| Parhau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac ysgolion fel llwyfan i hyrwyddo darpariaethau chwarae a hamdden a chymryd agwedd gydweithredol gyda'r Tîm Cyfathrebu i hyrwyddo holl ddarpariaethau'r haf ar gyfer plant a phobl ifanc |

## 7. Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae 2022/2023

Mae'r Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae ar gyfer 2022/23 i'w weld isod. Caiff y cynllun hwn ei fonitro'n chwarterol drwy Grŵp Gweithredu Digonolrwydd Chwarae, y mae cynrychiolwyr yr holl feysydd allweddol yn ei fynychu.

| Mater | Camau a Blaenoriaethau | Cysylltiadau â Materion Eraill |
|---|---|---|
| **Mater A: Poblogaeth** | * Parhau i sicrhau bod data sy'n gysylltiedig â'r boblogaeth yn cael ei nodi a'i gadw'n gyfoes ac i ddefnyddio'r data fel adnodd gweithredol ar gyfer darparwyr Chwarae a Hamdden | A, B, C, D, E, F, G, H, I |
| **Mater B: Darparu ar gyfer anghenion amrywiol** | *Parhau i sicrhau bod yr holl gyfleoedd chwarae yn parhau i gynnwys pawb, a herio unrhyw rwystrau o ran cyrchu'r ddarpariaeth. | A, B, C, D, E, F, G, H, I |
| | *Parhau i gyflwyno darpariaeth chwarae lle bo hynny'n bosib mewn ardaloedd gwledig ynysig. | A, B, D |
| | *Parhau i gyflwyno darpariaeth chwarae a blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweithio'n agos gyda Menter Iaith i ddatblygu'r gweithlu chwarae a hamdden Cymraeg. Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau lleoliadau addas ar gyfer darpariaeth chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg. | A, B, D, G |
| | * Parhau i ddarparu rhaglen eang o ddarpariaeth chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc gydag anableddau gan gynnwys: - Cynlluniau Chwarae, Clybiau Chwarae, Sesiynau Chwarae a Seibiant ar benwythnosau, Darpariaeth Gofal Chwarae, darpariaeth Blynyddoedd Cynnar a Hamdden. | B, D, I |
| | * Parhau i weithio gyda phartneriaid mewn perthynas â gwybodaeth, adnoddau, offer, a hyfforddiant i sicrhau bod yna | B, D, G, I |

| | | |
|---|---|---|
| | ymarfer cynhwysol o ansawdd. Ymgynghori'n rheolaidd â rhieni/gofalwyr mewn perthynas â chwarae cynhwysol | |
| | *Parhau i gefnogi partneriaid yn y 3ydd sector i ddarparu darpariaeth chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau ac i rannu adnoddau, gwybodaeth a hyfforddiant | B, D, G, I |
| | * Parhau i gefnogi a hyrwyddo'r Llyfrgell Benthyca Chwarae fel adnodd gweithredol ar gyfer chwarae, a hynny i deuluoedd, gweithwyr proffesiynol, a'r gymuned ehangach. | B, C, D, F, H, I |
| | * Parhau i gwblhau a gwneud cysylltiadau cryf â Chwarae drwy gydol yr holl fecanweithiau adrodd sy'n gysylltiedig â'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant. | A, B, D, E, G, H, I |
| | * Sicrhau bod yr offer chwarae sefydlog ar safle'r Teithwyr yn cael ei archwilio a'i gynnal a'i gadw'n dda, yn unol â safonau | B, C, H, I |
| | * Sicrhau bod gan y gweithlu chwarae a hamdden ddealltwriaeth dda o anghenion chwarae'r rhai sydd ag anghenion amrywiol (Anableddau, Plant sy'n derbyn Gofal, Teithwyr Sipsiwn, Gofalwyr Ifanc, Diwylliannau Gwahanol, LHDT ac ati) | B, D, G |
| | *Parhau i gynnal cyfarfodydd panel aml-asiantaeth chwarterol sy'n gysylltiedig â chefnogi plant a phobl ifanc ag anableddau. | B, D, G, I |
| | Creu tudalen ADY bwrpasol ar wefan y GGiD. | B, C, D, E, F |
| | Cynnal sesiynau seibiant a chwarae i blant a phobl ifanc ag anableddau yn wythnosol a thros gyfnod y Nadolig, y Pasg, hanner tymor a hafau. | B, D, I |
| | Cynnig darpariaeth chwarae a ieuenctid ar gyfer Gofalwyr Ifanc | B, D, I |
| | Gweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ymchwilio i'r posibilrwydd o gael cymorth ieuenctid ychwanegol yng ngogledd y fwrdeistref i blant a phobl ifanc LHDTC | B, D, E |
| **Mater C: Y Lleoedd Sydd ar Gael i Blant Chwarae** | Gohiriwyd y dilysu oherwydd cyfyngiadau COVID-19 a diffyg staff. Mae hyn wedi golygu nad yw'r Astudiaeth Greenspace sy'n mapio ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer chwarae wedi cael ei gynnal. I archwilio'r gweithredu<br>*Cwblhau archwiliadau llawn o ran mynediad ar gyfer pob Rhaglen Chwaraeon.<br>* Canfod cynigion i wella mynediad a nodi rhaglenni cyllid i'w rhoi ar waith lle bo modd.<br>*Sicrhau bod datblygiadau newydd yn darparu ar gyfer chwarae cynhwysol drwy broses S106 y CDLl<br>*Blaengynllunio i fabwysiadu safonau mannau agored fel y cynigiwyd mewn Asesiad o Fannau Agored<br>*Asesiad mwy cynhwysfawr yn seiliedig ar Arf Archwilio Chwarae Cymru i'w gynnwys yn y llwyth gwaith ar gyfer 2022/3 gyda chymorth, o bosib gan wirfoddolwyr<br>* Asesu safleoedd tir llwyd y mae'r ALl yn berchen arnynt, i ganfod y potensial i blant chwarae plant o fewn Asesiad Mannau Agored parhaus a strategaeth ddiweddarach mewn meysydd y nodwyd bod yna angen/diffyg<br>*Newid cofnodion GIS i sicrhau'r cofnod diweddaraf o'r holl fannau dynodedig a ddynodwyd yn Nhorfaen | C, F, I |

| | | |
|---|---|---|
| | *Cychwyn asesiad mwy sylweddol yn seiliedig ar Adnodd Archwilio Chwarae unwaith y bydd niferoedd staff yn caniatáu i alluogi asesu lleoedd chwarae i weld eu gwerth o ran chwarae<br>*Chwilio am gyfleoedd i ariannu diweddaru a chreu mannau chwarae newydd sy’n cyrraedd y safon, yn cynnwys mwy o gyllid refeniw i gynnal a chadw mannau chwarae sydd eisoes yn bodoli.<br>*Parhau i gwblhau adroddiadau arolygu blynyddol ar gyfer pob man chwarae a chadarnhau bod y safonau’n cael eu cynnwys yn y Cynllun Adnau. | |
| | * Cynnwys plant a'u teuluoedd mewn unrhyw ymgynghoriadau ynghylch penderfyniadau i waredu ar gyfleoedd chwarae<br>*Cefnogi landlordiaid cymdeithasol fel Bron Afon i barhau i weithio yn ôl Egwyddorion Dyfodol Gwyrdd<br>Bydd y CDLl newydd yn anelu at ddiogelu'r holl fannau gwyrdd a nodwyd yn yr Ardal Drefol<br>*Darparwyr chwarae a hamdden sydd â phrofiad o ymgynghori â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddarparu cymorth i gynnal y broses ymgynghori lle bo angen. | C, F, H, I |
| | Gweithio gyda phartneriaid mewn perthynas â chynllunio a datblygu parciau a mannau chwarae, gan ystyried yr anghenion chwarae sydd gan blant hŷn a phobl ifanc. | B, C, D, E, F, H, I |
| | Parhau i fonitro’r ceisiadau i dynnu arwyddion “Dim Gemau Pêl” drwy grŵp amlasiantaeth | C, D, F, H, I |
| | Parhau i fabwysiadu dull partneriaeth o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn parciau ac ardaloedd chwarae | B, C, D, E, F, H, I |
| | Cydweithio gyda phartneriaid i ddathlu Wythnos Genedlaethol y Parciau | B, C, D, E, F, H, I |
| | Parhau i gyfrannu at gynnal a chadw parciau/ ardaloedd chwarae drwy grantiau AWPOG | B, C, D, E, F, H, I |
| | Parhau i ddarparu sesiynau Chwarae yn y Parc (Chwarae Torfaen) | B, C, D, E, H, I |
| **Mater D: Darpariaeth dan Oruchwyliaeth** | Parhau i sicrhau bod ystod eang o ddarpariaeth chwarae a hamdden â staff o safon yn cael ei ddarparu drwy gydol y flwyddyn i ddiwallu anghenion cymunedau.<br>*Clybiau Chwarae Cymunedol<br>*Cynlluniau Chwarae Hanner Tymor a thros yr Haf<br>*Prosiectau Chwarae sy’n gysylltiedig ag Ysgolion<br>*Sesiynau Chwarae i Deuluoedd<br>*Prosiectau Chwarae Arbenigol (Anableddau / Plant Sy’n Derbyn Gofal/ Cymdeithasol ac Emosiynol / Ymddygiadol / Lego ac ati)<br>*Digwyddiadau Chwarae Cymunedol<br>* Gwersylloedd Chwarae a Lles<br>*Gwersylloedd Dysgu, Chwerthin a Bod yn Egnïol<br>*Sesiynau Chwarae yn y Parc | A, B, C, D, E, F, G, H, I |
| | Darparu sawl Gwersyll Chwarae a Lles cynhwysol yn ystod y Nadolig, Pasg a phob Hanner Tymor. | A, B, C, D, E, F, G H, I |
| | Darparu sesiynau chwarae allgymorth yng nghanol y gymuned. | |
| | Parhau i sicrhau bod gwybodaeth am ddarpariaeth chwarae â staff ar gael, ac yn cyfleu’r wybodaeth ddiweddaraf, ar wefan yr | D, F, H, |

| | | |
|---|---|---|
| | awdurdod lleol, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Safleoedd Chwarae Cyfryngau Cymdeithasol. | |
| | Gweithio gyda phartneriaid i rannu gwybodaeth am ddarpariaethau dros yr haf i blant a phobl ifanc mewn modd cydgysylltiedig | B, C, D, E, F,G,H,I |
| | Parhau i sicrhau bod y ddarpariaeth chwarae a ddarperir gan yr awdurdod lleol o safon uchel. Mae hyn yn cynnwys monitro chwarterol a hyfforddi staff | D, G |
| | Parhau i sicrhau bod cymorth i bartneriaid gynnig darpariaeth chwarae o safon uchel | D, G |
| | Parhau i sicrhau bod pob darpariaeth chwarae gofrestredig a ddarperir gan yr awdurdod neu a gomisiynir gan yr awdurdod, yn cael ei rheoleiddio i sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu bodloni | D, G |
| | Parhau i ddarparu ystod eang o chwaraeon, cyfleoedd i bobl ifanc, celf, a darpariaeth ddiwylliannol. | D, I |
| | Parhau i gyflawni a hyrwyddo'r Project Gwirfoddolwyr Chwarae i bobl ifanc 16+ | D, G, H, I |
| | Parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn cynyddu'r nifer a'r amrywiaeth o ddarpariaethau a gynigir i bobl ifanc yn eu cymuned leol, a lle bo hynny'n briodol, cynnig trafnidiaeth. | B, D, E, F, I |
| | Hyrwyddo cyfleoedd cyllido (Haf o Hwyl / Gaeaf o Les) i ddarparwyr ieuenctid trwy grantiau allanol i gynyddu nifer y darpariaethau sydd ar gael i bobl ifanc 12+ oed | B, D, E, H. I |
| **Mater E: Costau darparu chwarae** | Parhau i ddarparu pob darpariaeth chwarae mynediad agored yn rhad ac am ddim | B, D, E, I |
| | Sicrhau bod gan y gweithlu chwarae a hamdden ddealltwriaeth dda o effeithiau tlodi. | D, E, G, I |
| | Darparu byrbrydau iach am ddim ar safle pob cynllun chwarae yn yr haf | D, E, I |
| | Cefnogi teuluoedd sy'n wynebu neu mewn perygl o wynebu tlodi drwy ddarparu'r gwersylloedd drwy'r Rhaglen Bwyd a Hwyl mewn lleoliadau dynodedig yng ngwyliau'r haf (Gwersylloedd Dysgu, Chwerthin a Bod yn Egnïol) | B, D, E, G, I |
| **Mater F: Mynediad i le/ darpariaeth** | Hyrwyddo'r llwybrau seiclo a cherdded yn rheolaidd i blant a phobl ifanc Torfaen drwy'r cyfryngau cymdeithasol | C, F, I |
| | Parhau i gynnal grŵp ffocws aml-asiantaeth i edrych ar weithredu menter "Chwarae ar y Stryd yn Nhorfaen | C, F, H, I |
| | Parhau i ddarparu ardal ddynodedig ar wefan yr awdurdod lleol, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a thudalen cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaethau Chwarae i hyrwyddo manteision chwarae, darpariaeth chwarae, recriwtio, diogelu a diogelu chwarae, awgrymiadau defnyddiol i rieni/gofalwyr ac ati | B, C, D, E, F, G, H,I |

| | | |
|---|---|---|
| | Gweithio ar y cyd â darparwyr awdurdod lleol a’r 3ydd sector i rannu a hyrwyddo gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chwarae a darpariaethau hamdden i blant a phobl ifanc | B, C, D, E, F, G.H, I |
| | Parhau i weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo llwybrau diogel i chwarae o amgylch y gymuned drwy wella'r isffyrdd a'r llwybrau cerdded mewn ffordd artistig | C, F, H, I |
| | Parhau i weithio yn unol ag arfer presennol CBST mewn perthynas â Mentrau Traffig a Thrafnidiaeth | B, C, D, E, F, H, I |
| **Mater G: Cyflawni a Datblygu’r Gweithlu Chwarae** | Sicrhau bod pob gweithiwr a gwirfoddolwr yn cael ei hyfforddi i weithio mewn lleoliadau chwarae yn y gymuned gan gynnwys bodloni gofynion diogelu ac iechyd a diogelwch | D, G, I |
| | Sicrhau bod y gweithlu'n cael yr adnoddau i'w alluogi i ddarparu, a’i fod wedi derbyn hyfforddiant llawn | D, G |
| | Sicrhau bod pob gweithiwr a gwirfoddolwr yn cwblhau cyfnod ymsefydlu a chod ymddygiad yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r cyngor | D, G, I |
| | Sicrhau bod gan bob gweithiwr a gwirfoddolwr ddealltwriaeth dda o hawliau plant – Nod Barcut Safonau Cyfranogiad | B, C, D, G, H, I |
| | Parhau i gadw cofnod hyfforddi ar gyfer staff a gwirfoddolwyr | D, G |
| | Cadw dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar gyfer y gweithlu yn ystod y tymor a’ gweithlu’r haf a hynny o ran Darpariaethau Chwarae mynediad agored a Darpariaethau Blynyddoedd Cynnar | B, D, G, I |
| | Parhau i sicrhau bod yr holl staff chwarae a blynyddoedd cynnar yn cael goruchwyliaeth reolaidd yn y gwaith, gan gefnogi eu hanghenion dysgu. | G, D |
| | Darparu cyfarfodydd rhwydwaith rhannu gwybodaeth chwarterol ar gyfer gweithwyr ar lawr gwlad sy'n gysylltiedig â chwarae, hamdden, addysg, chwaraeon, blynyddoedd cynnar, ieuenctid, diwylliant, grwpiau mewn lifrai ac ati | G, D, I |
| | Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu lleoliadau yn y gwaith ar gyfer hyfforddeion a phrentisiaid chwarae | D, G, I |
| | Parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu cymwysterau Gwaith Chwarae lefel 1,2 a 3 | D, G |
| | Darparu sesiynau ymwybyddiaeth chwarae i bartneriaid, gweithwyr proffesiynol, aelodau etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned | G, H, I |
| **Mater H: Ymgysylltu â’r Gymuned a’i Chynnwys** | Mynd ati i gefnogi a hyrwyddo digwyddiadau chwarae cymunedol | C, D, H, I |
| | Gweithio gyda phartneriaid er mwyn hybu cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc | D, H, I |
| | Creu fideo blynyddol fel adnodd hyrwyddol i godi ymwybyddiaeth ynghylch chwarae a’r ddarpariaeth chwarae | B, C, D, E, F, G, H, I |

| | | |
|---|---|---|
| | Cydnabod yr holl wirfoddolwyr chwarae drwy gynnal seremoni Wobrwyo Flynyddol i Wirfoddolwyr | D, B, H, I |
| | Cydnabod gweithlu’r haf drwy gynnal Seremoni Wobrwyo Diwedd Haf. | D, B, H, I |
| | Cynyddu sesiynau ymwybyddiaeth chwarae i drigolion a gweithwyr proffesiynol a darparu Llyfrgell Benthyca Chwarae fel adnodd gweithredol ar gyfer chwarae plant. | F, H, I |
| | Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored i rieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach drwy weithdai ar-lein, sesiynau hyfforddi, cyfryngau cymdeithasol. | C, D, F, H, I |
| | Ymgysylltu â'r gymuned ehangach drwy gyfryngau cymdeithasol gan hyrwyddo chwarae mewn modd cadarnhaol, cyflwyno adnoddau defnyddiol ac awgrymiadau da. | B, C, D, E, F, G, H, I |
| | Ymgynghori’n rheolaidd ac yn eang gyda phlant, pobl ifanc a’r cyhoedd, ynghylch materion sy’n gysylltiedig â chwarae. | B, C, D, E, F, H, I |
| | Cefnogi Fforymau Ieuenctid, Cynghorau Plant | H, I |
| | Hyrwyddo a gwarchod y cysyniad chwarae. | B, C, D, E, F, H, I |
| **Mater I: Chwarae o fewn holl Bolisïau ac Agendâu Gweithredu Perthnasol** | Parhau i gefnogi ysgolion i sicrhau bod chwarae yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol o fewn y diwrnod ysgol trwy ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth chwarae i oruchwylwyr amser cinio a staff addysgu. | B, D, I |
| | Parhau i gyflwyno’r prosiect *chwarae ar y Buarth* a sesiynau chwarae adar y bore. | D, I |
| | Darparu sesiynau chwarae a lles mewn ysgolion i annog iechyd corfforol a meddyliol positif | D, I |
| | Cyflwyno Sesiynau *Lego Build to Express* i ddisgyblion mewn ysgolion. Prynu pecynnau Lego arbenigol i gynnal sesiynau i leihau straen a phryder i blant, ac annog lles cadarnhaol | D, I |
| | Parhau i ddarparu sesiynau chwarae allgymorth mewn cymunedau wedi'u targedu i ddargyfeirio ymddygiad Gwrthgymdeithasol | C, D, E, F, H, I |
| | Parhau i sicrhau bod Chwarae yn parhau i fod yn flaenoriaeth trwy gydol yr holl agendâu strategol perthnasol | A, B, C, D, E, F, G, H, I, |
| | Parhau i sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Trafnidiaeth Leol yn ystyried anghenion chwarae ac arferion chwarae plant a phobl ifanc yn Nhorfaen. | C, F, I |
| | Darparu amrywiaeth o ddarpariaethau sy’n gysylltiedig â chwarae arbenigol gyda chyswllt â menter Teuluoedd yn Gyntaf gan gynnwys – Sesiynau Chwarae a Seibiant, Fforwm Dad a Fi, Clwb Lego, Sesiynau Chwarae a Lles, a Sesiynau Chwarae i Deuluoedd. Parhau i atgyfnerthu’r cysylltiadau rhwng chwarae a Theuluoedd yn Gyntaf drwy’r llinyn anabledd yn ogystal â’r Broses Tîm o Amgylch y Teulu. | B, D, H, I |
| | Rhoi cymorth i ddisgyblion ar amserlenni wedi'u haddasu drwy'r prosiect Chwarae mewn ysgolion | B, D, E, I |

| | | |
|---|---|---|
| | Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu iechyd a lles ymhlith plant a phobl ifanc drwy gymryd rhan yn y "Filltir Ddyddiol" mewn cynlluniau chwarae hanner tymor a dros yr haf | D, I |
| | Darparu Blychau Chwarae ac Adnoddau i'r teuluoedd mwyaf anghenus | B, D, E, H, I |